

ARLWYAETH A LLETYGARWCH

Mae sleisen o sgil, pinsiad o angerdd a mymryn o natur benderfynol yn gwneud y rysâit perffaith ar gyfer gyrfa mewn arlwyfaeth a lletygarwch!

Mae hwn yn sector sy'n rhoi pwyslais mawr ar wasanaeth ar sail y cwsmer ac mae amrywiaeth o swyddi byrlymus, cyffrous lle mae'r argraff gyntaf yn cyfrif. Arbrofi gyda chynhwysion, perffeithio dulliau coginio o ansawdd dda, màs gynhyrchu neu brofi ansawdd; mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

Staff Bariau, Gwestai a Gweini

Perffaith ar gyfer y rheiny sydd wrth eu bodd yn cymdeithasu a sgwrsio. Pa un ai a ydych yn gweithio yn nerbynfa gwesty neu'n rheoli bar, byddwch yn ffynnu i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y profiad gorau posibl.

Arlwyo

Coginio a pharatoi bwyd ar gyfer unrhyw amgylchedd masnachol sy'n ymfalchïo yn eu bwydlen. Diwydiant sy'n gofyn angerdd ac sy'n gwobrwyo gwaith caled; os allech chi ddiodeff y gwres, gweithiwr yn y gegin!

Cynhyrchu Bwyd

O fesur ac ychwanegu cynhwysion, gwirio am ddiffygion a phwysu samplau i gynnal safonau ansawdd, mae swydd mewn cynhyrchu bwyd yn amrywiol. Gallech weithio yn un o'r bwytaï gorau neu mewn gweithgynhyrchu.

Pecynnu

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno bwyd, gallech weithio mewn pecynnu. Gall y swydd gynnwys pacio cynnyrch bwyd,

ymwybyddiaeth o ansawdd a hylendid a gweithio gyda pheiriannau.

Dosbarthu

O dderbyn deunyddiau bwyd amrwd i gludo'r cynnyrch gorffenedig i siopau ledled y wlad, mae'r maes hwn yn ymdrin â chludo a storio nwyddau.

Caffael a Logisteg

Delfrydol i chi os oes gennych feddwl busnes, byddwch yn allweddol yn y gadwyn fwyd yn cysylltu â chyflenwyr i brynu nwyddau neu gynllunio'r dosbarthiad. Gallech hefyd ddod yn aelod cymwys proffesiynol o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.

Dolenni Defnyddiol

www.thestaffcanteen.com

Urdd y Cogyddion

www.welshculinaryassociation.com

Cymdeithas Goginio Cymru

www.caterlinks.co.uk/ass.htm

Dolenni i gymdeithasau arlwyfo

Y DIWYDIANT
LLETYGARWCH
YW'R 4YDD
DIWYDIANT MWYAF
YN Y DU, SY'N
GYFRIFOL AM 3.2M
O SWYDDI

(ffynhonnell UK Hospitality)



4.3
MILIWN

SWYDDI YM
MAES CYFLENWAD
CADWYN FWYD A
DIOD Y DU

(ffynhonnell Food and Drink Federation)



MAE'R
DIWYDIANT
BWYD A DIOD YN
CYFRANNU
£120
BILIWN
AT
ECONOMI'R
DU

(ffynhonnell House of Commons Library)

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	C
Lletygarwch ac Arlwyfo	Mynediad 3	✓
NVQ mewn Gwasanaethau Lletygarwch	1	✓
Coginio Proffesiynol	1	✓
Coginio Proffesiynol	2	✓
Coginio Proffesiynol - Cegin a Phantri (Oedolion)	3	✓